**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Yr Is-Adran Rheoleiddio a Strategaeth Economaidd
Llywodraeth Cymru

Trwy e-bost: BuddsoddiRhanbartholyngNghymru.llyw.cymru

19/12/2025

Annwyl Gyfaill,

**Ymgynghoriad: Cynigion ar gyfer cyflwyno Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru**

Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar y materion dan sylw yng nghyd-destun y Gymraeg.

Ymhlith yr egwyddorion arweiniol a fydd yn llywio cynlluniau a buddsoddiadau'r Gronfa Twf Lleol, croesawn yr egwyddor (f) o 'Integreiddio cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a'r Gymraeg yn ein holl fuddsoddiadau'. Fodd bynnag, byddem wedi disgwyl mwy o gyfeiriadau at y Gymraeg trwy'r ddogfen ymgynghori, yn ogystal ag yn yr asesiad effaith integredig, nad yw'n cyfeirio at y Gymraeg o gwbl.

Croesawn y datganiad y bydd y dull gweithredu ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yng Nghymru yn cyflawni yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan fod 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o'i nodau llesiant. Nodir y bydd y dull gweithredu hefyd yn cyd-fynd â pholisi economaidd Llywodraeth Cymru, *Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach*. Testun pryder yw canfyddiad adroddiad Prifysgol Aberystwyth, *Tu hwnt i ARFOR*, nad yw'r genhadaeth hon yn cynnwys dim cyfeiriadau at y Gymraeg.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn trafod pwysigrwydd cymunedau cysylltiedig, cryf a gwydn fel asedau economaidd, a buddsoddi mewn cyfleoedd economaidd cynaliadwy i bobl ifanc. Cytunwn â'r amcan strategol i wella seilwaith economaidd lleol, gan gynnwys trafnidiaeth, cysylltedd digidol, ac asedau cymunedol i gefnogi cymunedau cynaliadwy. Mae'r materion hyn i gyd yn berthnasol i gymunedau Cymraeg. Dadleua'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn ei adroddiad, *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*, mai un o'r rhesymau bod cymunedau â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn gweld gostyngiad cyson yn nifer a

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

chanran y siaradwyr yw eu bod 'yn wynebu heriau strwythurol sylweddol, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio ac allfudo cyson o bobl ifanc'. Un o'r rhesymau y mae pobl ifanc yn allfudo yw'r heriau economaidd sylweddol a strwythurol sy'n golygu bod llai o gyfleoedd economaidd i ddenu pobl ifanc i aros neu i ddychwelyd i'r cymunedau hyn.

## Pwysigrwydd yr economi yng nghyd-destun polisi iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru

Mae strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru yn nodi pwysigrwydd cymuned a'r economi, a gosodir nod o gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg.  Mae'r strategaeth yn trafod arwyddocâd ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg a'r angen i gynllunio ieithyddol a datblygu economaidd gyd-fynd â'i gilydd, er mwyn creu cymunedau Cymraeg sy'n hyfyw yn economaidd ac yn ieithyddol. Nodir bod yr economi yn hanfodol er mwyn creu'r amodau cymdeithasol priodol i siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd iddynt. Ymhlith y ffactorau y gellir dylanwadu arnynt yng nghyd-destun twf economaidd, mae'r Llywodraeth yn y strategaeth yn adnabod y pwys a roddir ar y Gymraeg, lleoliad swyddi yn y sector cyhoeddus, clystyrau, sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel sgil gwerthfawr mewn datblygiadau mawr, a chyfleoedd i ddefnyddio'r sgiliau hynny. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen ymgynghori 'Cynigion ar gyfer cyflwyno Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru' yn cyfeirio at *Cymraeg 2050* o gwbl er gwaethaf pwyslais y strategaeth honno ar yr economi yng nghyd-destun cymunedau Cymraeg.

Wrth osod datblygu economaidd mewn cyd-destun rhanbarthol yng Nghymru, cyhoeddir bwriad yn y ddogfen ymgynghori i sicrhau bod cyllid yn gweithio ochr yn ochr â buddsoddiadau eraill wedi eu targedu'n lleol i gefnogi swyddi a thwf, gan gynnwys Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf. Ers haf 2024 mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, sy'n gweithredu'r Bargeinion Dinesig a Thwf, i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Dylai'r gofyniad hwn sicrhau bod y Cyd-bwyllgorau yn rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r Gymraeg wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol a chyllidebol.

Fodd bynnag, testun pryder unwaith eto yw canfyddiad *Tu hwnt i ARFOR* mai ystyriaeth ymylol fu'r Gymraeg yn gyson yn natblygiad Bargen Twf Gogledd Cymru, Bargen Twf Canolbarth Cymru a Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Yn ôl yr adroddiad, bydd effaith hirdymor y Bargeinion Dinesig a Thwf yn sylweddol iawn o ystyried y lefelau uchel o fuddsoddi cyhoeddus a phreifat sydd ynghlwm â hwy, ond ymddengys nad ydynt yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i raglen ARFOR, nac ychwaith i'r Gymraeg. Mae'r Bargeinion Dinesig a Thwf yn darparu buddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd ac yn cynnig cyfeiriad strategol ar gyfer datblygiadau economaidd trwy Gymru gyfan am gyfnod o 15 mlynedd. O'i gymharu â hyn, buddsoddiad bach a wnaethpwyd yn rhaglen ARFOR, a grëwyd i gefnogi economi'r ardaloedd sydd â'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg o fewn ffiniau awdurdodau lleol Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## Perthnasedd y Gymraeg i'r blaenoriaethau buddsoddi

Mae cyfleoedd i gryfhau'r blaenoriaethau a'r amcanion strategol a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori drwy ystyried perthnasedd y Gymraeg iddynt. Er enghraifft, un amcan yw buddsoddi mewn asedau treftadaeth, twristiaeth, neu ddiwylliannol. Dylai'r amcan hwn gyfeirio'n benodol at y Gymraeg. Felly hefyd yr amcanion sy'n cyfeirio at wella lefelau cymwysterau a/neu sgiliau, a chymorth a hyfforddiant sgiliau wedi'u teilwra sy'n seiliedig ar alw ar gyfer sectorau â photensial o dwf uchel neu sectorau o bwysigrwydd rhanbarthol. Rhybuddir bod gweithlu Cymru'n crebachu, gan arwain at brinder staff, gan gynnwys mewn rhai sectorau lle rhagwelir y bydd y galw'n cynyddu, fel iechyd a gofal cymdeithasol. Pwysleisir pwysigrwydd mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.

Mae hyn yn berthnasol iawn yng nghyd-destun y Gymraeg gan fod galw cynyddol am weithlu dwyieithog yng Nghymru heddiw. Erbyn hyn mae dros 130 o sefydliadau dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg, gan gynnwys rhai o gyflogwyr mwyaf Cymru. Gwyddom hefyd fod y Gymraeg yn sgil a werthfawrogir gan sefydliadau y tu hwnt i'r gyfundrefn safonau. Mae'r rhain yn cynnwys busnesau bach a mawr, rhai ohonynt wedi derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae *Cymraeg 2050* yn pwysleisio'r angen  i sicrhau bod gan bobl ifanc gyfle i barhau i ddatblygu sgiliau dwyieithog i gefnogi economi sy'n ffynnu, a newid mewn diwylliant lle mae'r manteision o gael gweithlu o fewn yr economi sy'n gynyddol ddwyieithog yn cael eu cydnabod.

Credwn hefyd bod angen ystyried strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, rhaglen ARFOR, ac adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg[1] yng nghyd-destun datblygu economïau rhanbarthol. Fe ddylai'r ddogfen ymgynghori gydnabod ac ystyried arwyddocâd y gronfa dwf hon yng nghyd-destun gweledigaeth Llywodraeth Cymru dros y Gymraeg, yn enwedig o ran cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr.

Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd a photensial ehangu'r economi werdd yng Nghymru. Mae cysylltiad amlwg rhwng yr angen i gefnogi ffyniant economaidd cymunedau Cymraeg a'r cyfleoedd cyffrous sy'n bodoli yn sgil datblygiadau economaidd sero net. Mae potensial i economi ardaloedd gorllewinol Cymru gael eu cryfhau yn sgil cyfleoedd economaidd y trawsnewidiad gwyrdd, yn enwedig gan fod yr ardaloedd hyn yn meddu ar lawer o adnoddau naturiol perthnasol.

## Asesiad effaith iaith Gymraeg a'r safonau llunio polisi

Er bod y ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiynau yn ceisio barn am effeithiau tebygol y Gronfa Twf Lleol ar y Gymraeg, nid yw'n ymddangos y cafodd yr effeithiau hyn eu hystyried wrth gyflwyno'r ymgynghoriad. Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, mae safonau'r Gymraeg yn ei

[1] Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

gwneud yn ofynnol i'r ddogfen honno **ystyried** a **cheisio barn** ynghylch yr effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Byddai prif ffrydio'r Gymraeg i'r ymgynghoriad hwn a'r gwaith canlynol yn cryfhau'r canlyniadau i siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Gobeithio y bydd y sylwadau uchod o gymorth yn y gwaith hwnnw.

Yr eiddoch yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg